

# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd yn y Cyfarfod Rhithiol ddydd Llun, 7 Mehefin, 2021

Yn bresennol: Cynghorwyr John Griffith, A M Jones (Cadeirydd), Richard Owain Jones, Dylan Rees (Is-Gadeirydd), Alun Roberts, J A Roberts, Bryan Owen a Margaret Murley Roberts

## Aelodau'r Portffolio

Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol), Alun Mummery (Aelod Portffolio Tai a Chefnogi Cymunedau), Richard Dew (Aelod Portffolio Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), Carwyn Jones (Aelod Portffolio Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd), R.G. Parry, OBE, FRAGS (Aelod Portffolio Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol) , Robin Williams (Aelod Portffolio Cyllid)

**Wrth law:** Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) /Swyddog Monitro, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, Pennaeth Gwasanaethau Tai Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, Prif Swyddog Rheoli Gwastraff Rheolwr Gwasanaethau Tai (Strategaeth, Comisiynu a Pholisi), Rheolwr Sgriwtini , (AGD), Swyddog Pwyllgor (ATH)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Richard Griffiths, Nicola Roberts, Mr Keith Roberts a Mrs Anest Frazer (Aelodau Cyfetholedig) Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Aelod Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant), y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio Trawsnewid a'r Iaith Gymraeg)

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Swyddog Sgriwtini (SR), Dadansoddwr Busnes a Pherfformiad Corfforaethol (AW), Bethan Roberts (Archwilio Cymru), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

(1:00 y. p. tan 2:25 y. p.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>1 Datganiad o Ddiddordeb</b>
	Ni fu i unrhyw un ddatgan diddordeb.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>2 Cofnodion y Cyfarfodydd Blaenorol</b>
PENDERFYNIAD	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 26 Mawrth, 2021 (galw i mewn), 23 Ebrill, 2021 a 14 Mai, 2021 (ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd) a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 Monitro Perfformiad: Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarter 4 2020/21</b>
------------------------	--

PENDERFYNIAD	<p>Ar ôl ystyried adroddiad cerdyn sgorio Chwarter 4 2020/21 a'r diweddariadau a ddarparwyd gan Swyddogion yn y cyfarfod, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn llwyddo i sicrhau gwelliannau ynddynt i'r dyfodol ac argymell y mesurau lliniaru fel yr amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.</p> <p>DIM CAMAU PELLACH</p>
--------------	---

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Cyllid</b>
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd derbyn adroddiad Cadeirydd y Panel Sgriwtini Cyllid, nodi'r pwyntiau a ddygwyd i sylw'r Pwyllgor a diolch i'r Cynghorydd Dafydd Roberts am yr adborth.</p> <p>DIM CAMAU PELLACH</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>5 Effaith Covid ar Wasanaethau Digartrefedd</b>
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd derbyn yr adroddiad ar yr ymateb i Covid a digartrefedd a nodi'r wybodaeth.</p> <p>DIM CAMAU PELLACH</p>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>6 Blaen Rhaglen Waith</b>
PENDERFYNIAD	<p>Penderfynwyd –</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno ar fersiwn bresennol y flaen raglen waith ar gyfer 2021/22.</li> <li>• Nodi'r cynnydd hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.</li> </ul>